| GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG | |
|---|---|
| **Rheoliadau Cerbydau Nwyddau Trwm (Codi Tâl am Ddefnyddio Seilwaith Penodol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 30 Hydref 2018* | |
| **Sifftio** | |
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Bydd |
| Gweithdrefn: | Negyddol arfaethedig |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | 13 Tachwedd 2018 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 12 Tachwedd 2018 |
| Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | 20 Tachwedd 2018 |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 4 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Anhysbys |
| Y weithdrefn | Negyddol neu Gadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Sylwadau**

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad yn cytuno â chrynodeb ac amcan y gwelliannau a wneir gan y Rheoliadau fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru yn ei Datganiad Ysgrifenedig. O ran y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, efallai y bydd yr Aelodau am drafod y rhesymeg a ddarparwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig:

"Nid oes gwahaniaeth rhwng ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi i'w gywiro, ac nid yw'r cywiriad yn wleidyddol sensitif. O ganlyniad, byddai gwneud OS ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith a chymhlethdod diangen i'r llyfr statud. O

dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn."